

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan, Practis
Deintyddol Heol Caerdydd**

21 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd rhywfaint o oedi wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	13
5.	Y Camau Nesaf.....	15
6.	Methodoleg	16
	Atodiad A.....	18

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif nod AGIC yw:

- Cyfrannu at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd o ran y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad ym Mhractis Deintyddol Heol Caerdydd yn 67 Heol Caerdydd, Casnewydd, NP20 2EN, ar 21 Mawrth 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Practis Deintyddol Heol Caerdydd yn cyrraedd y safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol â rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain, ac a yw'r diwylliant yn addas i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Heol Caerdydd yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Casnewydd yn Ngwent. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Practis cymysg yw Practis Deintyddol Heol Caerdydd, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau berchennog-ddeintydd, nad ydynt yn gweithio yn y practis hwn, deg deintydd cyswllt, rheolwr y practis, dirprwy reolwr y practis, hylenydd, un nyrs/derbynnydd, un nyrs a chwe nyrs dan hyfforddiant, ac un derbynnydd. Mae'r staff yn gweithio yn y practis hwn yn ogystal ag yn un o'r practisau eraill yn y grŵp hwn.

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Heol Caerdydd yn darparu gofal diogel ac effeithiol, ac roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Canfuwyd bod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion y cawsom sgwrs â hwy eu bod yn cael croeso gan dîm y practis, a'u bod yn fodlon ar y gofal yr oeddent yn ei gael.
- Roedd y staff y cawsom sgwrs â hwy yn hapus yn eu rolau, ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd yr amodau cyffredinol yn y practis yn dda iawn, ac roedd yr adeilad yn ymddangos yn lân ac yn daclus.
- Roedd y cyfleusterau clinigol a welsom yn gyflawn ac mewn cyflwr da.

Argymhellwn y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen addasu nifer o'r polisiâu a'r gweithdrefnau i'w gwneud yn benodol i'r practis, a dylai pob un ohonynt gael ei ddiweddarau'n rheolaidd.
- Dylai cyffuriau brys gael eu cadw dan glo, a'u harchwilio'n rheolaidd.
- Dylai'r ffeil ymbelydredd gael ei diweddarau, er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r defnydd o belydrau-X yn y practis.

Gweler Atodiad A i gael rhagor o fanylion am y gwelliannau sydd eu hangen.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd yr holl gleifion y cawsom sgwrs â hwy ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn cael croeso gan dîm y practis, a'u bod yn fodlon ar y gofal yr oeddent yn ei gael. Fodd bynnag, argymhellwn y dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer ceisio adborth gan gleifion yn rheolaidd, er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Argymhellwn hefyd y dylid diweddarau'r weithdrefn gwyno a'i harddangos yn y practis er mwyn i'r cleifion ei gweld.

Cyn yr arolygiad, roeddem wedi gwahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu barn ynghylch y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Mae'r staff deintyddol bob amser yn gwrtais, ac mae'r deintyddion yn broffesiynol ac yn effeithlon."

"Practis deintyddol da iawn. Rwy'n teimlo'n gyfforddus yn cael triniaeth."

"Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar ac yn barod i helpu."

Gofal urddasol

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu cael, a bod y staff yn groesawgar. Gwelsom fod swyddfa ar gael er mwyn i staff gael sgwrsiau preifat â chleifion, i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill, petai angen.

Mae gan Bractis Deintyddol Heol Caerdydd ddwy chwaer-bractis: un yng Nghasnewydd ac un arall yng Nghaerdydd. Mae'r tri phractis yn rhannu gwefan, sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol. Roedd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau wedi'u harddangos yn yr ardaloedd aros.

Roedd un toilet ar gyfer cleifion a dau doiled ar gyfer staff. Nid oedd yr un o'r toiledau yn cynnwys biniau glanweithdra. Cynghorwyd y practis y dylai'r rhain gael eu gosod ym mhob un o'r toiledau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y toiledau'n cynnwys biniau glanweithiol ar gyfer gwastraff hylendid benywaidd.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith, a oedd yn galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau ymlaen llaw, yn ogystal ag ar frys. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym nad oeddent yn gorfod aros cyn cael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y rheini a oedd wedi gorfod aros nad oedd hynny am gyfnod hir. Disgrifiodd staff y broses o roi gwybod i gleifion os oedd eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gofal y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd ger mynedfa'r practis a oedd yn cynnwys manylion y rhif ffôn cyswllt brys, er mwyn i gleifion allu cael gofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau. Roedd y neges llais ar beiriant ateb y practis hefyd yn cynnwys gwybodaeth addas.

Cadw'n iach

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y practis yn cydnabod yr angen i hybu iechyd, er mwyn cefnogi lles ei gleifion. Roedd amrywiaeth o daflenni a phosteri a oedd yn hybu iechyd y geg a lles cyffredinol. Dywedodd rhai o'r cleifion y cawsom sgwrs â hwy eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth ddigonol.

Gofal unigol

Mae'r practis wedi'i leoli mewn ardal sydd â phoblogaeth amrywiol iawn, ac er bod polisi cyfle cyfartal ar waith, nid oedd y polisi hwn wedi cael ei lofnodi a'i ddyddio i ddangos ei fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Argymhellwyd gennym y dylai'r polisi gael ei ddiweddarau, er mwyn sicrhau bod y practis yn gallu dangos ei fod wedi cydnabod amrywiaeth ei boblogaeth ac wedi ystyried ei gyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

Roedd mynediad da i'r practis ar gyfer cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, yn ogystal â'r rheini ag anawsterau symudedd. Roedd yr ystafell driniaeth ar y llawr gwaelod yn hawdd ei chyrraedd.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer ceisio adborth a chwynion gan gleifion. Roedd unrhyw gwynion/adborth llafar yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion, ac roedd cwynion ffurfiol yn cael eu cadw mewn ffeil. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis gofnodi cwynion ysgrifenedig a llafar er mwyn dangos yr amserlenni a chanlyniad y gŵyn. Byddai hyn yn sicrhau bod pob cwyn yn cael sylw o fewn cyfnod rhesymol o amser, a bod modd nodi a datrys unrhyw dueddiadau yn gyflym.

Roedd copi o daflen “Gweithio i Wella” y GIG wedi’i harddangos yn y practis, ac roedd nifer o gopïau o’r daflen hon ar gael i’w rhoi i gleifion petaent yn gofyn amdani. Nid oedd y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat wedi’i harddangos, ac nid oedd y weithdrefn a oedd wedi’i chadw ar ffeil yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Cynghorwyd y practis y dylai arddangos gweithdrefnau gwyno, a oedd yn briodol i’r practis, ar gyfer cleifion y GIG yn ogystal â chleifion preifat, ac y dylent gydymffurfio â’r canllawiau perthnasol. Argymhellwyd hefyd y dylai’r practis sicrhau bod copïau o’r gweithdrefnau hyn ar gael yn yr ystafelloedd aros i’r cleifion eu cadw, fel nad oedd yn rhaid iddynt ofyn am y wybodaeth hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i’r practis ddangos bod y polisi cyfle cyfartal yn cael ei ddiweddarau’n rheolaidd.

Rhaid i’r practis ddiweddarau’r polisi/weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat, er mwyn sicrhau bod y polisi’n cynnwys manylion cyswllt AGIC yn glir.

Dylai’r weithdrefn gwyno lawn gael ei harddangos mewn man amlwg, lle gall cleifion ei gweld, a dylid gadael copïau ohoni yn yr ystafelloedd aros. Ni ddylai cleifion orfod gofyn am y wybodaeth hon.

Cyflwyno llyfr cofnodi cwynion er mwyn monitro cwynion llafar.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth i gefnogi'r casgliad bod cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem yn fodlon bod y cyfarpar radiograffeg yn cael ei ddefnyddio yn ddiogel, ac yn cael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw'n briodol. Argymhellwyd gennym y dylai'r polisïau diogelu gael eu diweddarau. Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom, ar y cyfan, eu bod o safon dda.

Gofal diogel

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion. Gwelsom fod prawf dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi cael ei gynnal i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd yn lân ac yn daclus, heb unrhyw beryglon amlwg. Roedd yr adeilad wedi'i oleuo'n dda a'i wresogi'n briodol, ac roedd toiled a chyfleusterau golchi dwylo ar gael. Roedd diffoddyddion tân wedi'u gosod yn strategol, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd uned gywasgu, a oedd wedi'i harchwilio a'i chynnal a'i chadw'n rheolaidd, wedi'i lleoli yn yr islawr.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Yn Ystafell Driniaeth Dau, gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei waredu mewn bagiau bin gwyn, ac argymhellwyd gennym y dylai'r practis ddefnyddio bagiau oren, er mwyn sicrhau na chaiff gwastraff clinigol ei gymysgu â gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom hefyd fod cynwysyddion offer siarp yn cael eu cadw ar y llawr yn yr ystafelloedd triniaeth a welsom, ac argymhellwyd gennym y dylid cadw'r rhain ar silff ar y wal, er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod bagiau o liw priodol yn cael eu defnyddio yn yr holl finiau gwastraff.

Dylid sicrhau bod bocsys offer siarp yn cael eu cadw oddi ar y llawr.

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Roedd cofnodion o archwiliadau cyfarpar wedi cael eu cadw, ac roedd archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd wedi cael eu cynnal gan ddeintyddion y practis. Awgrymwyd gennym y dylai'r archwiliadau hyn gael eu

cynnal gan y nyrsys sy'n rhan o'r broses ddadheintio, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05).

Mae gan y practis ystafell ddadheintio benodedig. Roedd technegau glanhau â llaw cyn sterileiddio yn cael eu defnyddio. Roedd y tystysgrifau archwilio, yswiriant a chynnal a chadw perthnasol ar gael ar gyfer yr holl gyfarpar a oedd yn cael eu defnyddio i ddadheintio offer (tri awtoclaf). Argymhellwyd gennym y dylid arddangos y llwybr o ardaloedd brwnt i ardaloedd glân ar waliau'r ystafell ddadheintio, yn ogystal ag arwyddion clir i ddynodi'r ardaloedd glân a'r ardaloedd brwnt. Hefyd, dylid arddangos y gweithdrefnau dadheintio ar y waliau, a'u diweddarau'n rheolaidd os caiff unrhyw gynhyrchion eu newid. Mae'r protocol ar gyfer rhoi hyfforddiant ar ddadheintio yn cynnwys cyrsiau hyfforddi ar-lein, ac mae staff newydd yn dechrau eu hyfforddiant yn yr ystafell ddadheintio dan oruchwyliaeth nyrs ddeintyddol brofiadol.

Roedd offer yn cael eu storio a'u dyddio'n briodol ar ôl cael eu sterileiddio, fel bod y staff yn gwybod pa offer a oedd yn ddiogel i'w defnyddio i drin cleifion. Fodd bynnag, awgrymwyd gennym y dylid cadw offer endodontig yn eu deunydd pacio gwreiddiol nes eu bod yn barod i gael eu defnyddio.

Roedd cyfarpar diogelu personol, megis menig, ffedogau, ac offer diogelu'r llygaid, ar gael. Roedd sinc ddynodedig ar gael ar gyfer golchi dwylo.

Roedd offer dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd yr holl gyfarpar yn barod i'w defnyddio, a'r holl gyffuriau yn gyfredol. Roedd y cyffuriau yn cael eu cadw mewn ystafell heb ei chloi, ac roedd cofnodlyfr yn dangos bod archwiliadau'n cael eu cofnodi mewn modd anghyson. Argymhellwyd gennym y dylai'r cyffuriau brys gael eu cadw dan glo mewn ystafell/drâr, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU). Dylai cyffuriau brys gael eu harchwilio bob wythnos, a dylai'r silindr ocsigen a'r diffibriliwr gael eu harchwilio bob dydd. Dylai'r cofnodlyfr gael ei ddiweddarau i ddangos yn glir pryd y mae'r archwiliadau hyn yn cael eu cynnal. Nid oedd y cyffuriau a'r triniaethau a ddefnyddir yn ystod argyfyngau yn cael eu cadw gyda'i gilydd; argymhellwyd gennym y dylid eu cadw gyda'i gilydd, er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng.

Gwelsom gofnodion bod staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol, a sut i roi triniaeth adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Roedd y staff y cyfwelwyd â hwy yn ymwybodol o'u rolau yn ystod argyfwng meddygol. Rheolwr y practis yw swyddog cymorth cyntaf dynodedig y practis, ond gan nad yw bob amser yn bresennol yn y practis, argymhellwyd gennym y dylai aelod arall o staff gael hyfforddiant cymorth cyntaf. Nid oedd polisi dadebru ar waith a oedd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer y practis, felly, gan fod nifer o'r aelodau staff yn symud rhwng y tri phractis, argymhellwyd gennym

ei bod yn hollbwysig bod polisi dadebru ar waith, a oedd wedi'i addasu'n benodol ar gyfer y practis hwn, a bod pob aelod o staff yn cael copi ohono.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn y dylai archwiliadau rheoli heintiau gael eu cynnal gan y nyrsys sy'n rhan o'r broses ddadheintio.

Dylai'r practis sicrhau bod y llwybr o ardaloedd brwnt i ardaloedd glân yn cael ei arddangos ar waliau'r ystafell ddadheintio, ynghyd ag arwyddion clir i ddynodi'r ardaloedd glân a'r ardaloedd brwnt. Hefyd, dylai'r gweithdrefnau dadheintio gael eu harddangos ar y waliau.

Dylai'r practis sicrhau bod y cyffuriau brys yn cael eu cadw dan glo mewn ystafell/drâr, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru.

Dylid archwilio cyffuriau a chyfarpar brys (silindr ocsigen a diffibriliwr) yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio. Dylid diweddarau'r cofnodlyfr i ddangos yn glir pryd y mae'r archwiliadau hyn yn cael eu cynnal.

Argymhellwyd gennym y dylid cadw cyffuriau a gweithdrefnau brys gyda'i gilydd, er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng.

Dylai'r practis sicrhau bod ganddo bolisi dadebru sydd wedi'i deilwra'n benodol, a bod gan bob aelod o staff gopi o'r polisi hwn.

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed (POVA). Byddai'r rheini nad oeddent wedi cael yr hyfforddiant hwn yn mynd i'r sesiwn hyfforddi nesaf yn ddiweddarach eleni. Gwelsom wybodaeth am amddiffyn plant gan y GIG, dyddiedig 2012. Roedd gwybodaeth gyffredinol debyg ar gael am amddiffyn oedolion agored i niwed. Cynghorwyd y practis y dylai greu polisiau diogelu a oedd yn benodol i sefyllfa unigol y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gael polisiau amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed cyfredol, sy'n benodol i'r practis.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff godi unrhyw bryderon. Roedd archwiliadau cyn cyflogaeth wedi cael eu cynnal ar gyfer pob cyflogai, ac roedd y deintyddion wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Gwelsom ddogfennau i ddangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Yn ogystal â hyn, gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob aelod o staff sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau hyfforddiant i gyrraedd safonau ar gyfer personél sy'n cyflawni'r gweithdrefnau hyn. Mae hyn yn unol â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Nid oedd y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer ansawdd delweddau pelydr-X. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis gynnal yr archwiliadau hyn bob blwyddyn.

Edrychwyd ar y gweithdrefnau a arddangosir yn yr ystafelloedd triniaeth, sy'n dangos sut i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel (rheolau lleol), a gwelsom nad oeddent yn cynnwys manylion cyswllt y cynghorydd diogelwch ymbelydredd. Hefyd, nid oedd diagramau o'r ardaloedd rheoli ar gyfer pob peiriant wedi cael eu dogfennu.

Ychydig iawn o wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y ffeil diogelwch ymbelydredd. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis ddiweddarau'r ffeil i sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r defnydd o belydrau-X, yn ogystal â manylion cyrsiau hyfforddi perthnasol y mae'r staff wedi'u mynychu, a dyddiadau'r cyrsiau hynny.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwyd gennym y dylai'r practis gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd radiograffeg bob blwyddyn.

Dylai'r rheolau sy'n llywodraethu'r defnydd diogel o belydrau-X gael eu diweddarau i gynnwys manylion cyswllt y cynghorydd diogelwch ymbelydredd.

Dylai diagramau o'r ardaloedd rheoli ar gyfer pob peiriant pelydr-X gael eu dogfennu.

Dylai'r ffeil diogelwch ymbelydredd ddangos yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r defnydd o belydrau-X yn y practis, yn ogystal â manylion y cyrsiau hyfforddi perthnasol y mae'r staff wedi'u mynychu, a dyddiadau'r cyrsiau hynny.

Gofal effeithiol

Mae cleifion yn cael budd o bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau yn ymwneud â rheoli heintiau wedi cael eu cynnal yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod amrywiaeth o drefniadau llywodraethu clinigol/sicrhau ansawdd ar waith gan y deintyddion. Roedd y rhain yn cynnwys adolygiadau gan gymheiriaid mewnol bob tri mis, mynychu grwpiau trafod a fforymau, a chwblhau cyrsiau hyfforddi ar-lein, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o arferion gorau.

Cofnodion cleifion

Edrychwyd yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion ar gyfer nifer o'r deintyddion yn y practis. Yn gyffredinol, gwelsom fod y cofnodion o safon dda; fodd bynnag, nodwyd gennym rai gwelliannau y gellid eu gwneud:

- Dylai hanesion meddygol gael eu llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd ym mhob archwiliad.
- Dylid cofnodi diweddariadau llafar mewn perthynas â hanesion meddygol yn ystod pob ymweliad, er mwyn sicrhau nad oes dim wedi newid.
- Roedd cyfiawnhad a chofnodion o ganfyddiadau radiograffau wedi'u nodi, ond dim ond mewn un achos yr oedd y radiograffau wedi'u graddio. Dylid cynnal archwiliad sicrhau ansawdd, a dylai gradd y pelydr-X gael ei chofnodi.
- Fel dyletswydd gofal, dylid cynghori cleifion sy'n smygu eu bod yn wynebu risg gynyddol o ganser y geg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai hanesion meddygol gael eu llofnodi yn unol â'r rheoliadau, a dylid nodi unrhyw ddiweddariadau llafar.

Dylid graddio pob radiograff.

Dylid cynghori cleifion sy'n smygu eu bod yn wynebu risg gynyddol o ganser y geg.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Mae'r practis yn un o grŵp o dri phractis, sy'n rhannu tîm rheoli cyffredin. Mae dirprwy reolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Fe'i cefnogir gan ddeintydd cyswllt, sy'n gweithio yn y practis y rhan fwyaf o'r wythnos. Wrth arsylwi ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon, a bod y staff yn cydweithio fel tîm. Roedd y staff y siaradwyd â hwy yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Gwelsom fod angen gwneud nifer o welliannau i'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n tanategu diogelwch y gofal a roddir, ac sy'n helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn ymweld â'r practis yn rheolaidd, ac, er bod y prif ddeintyddion yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser mewn chwaer-bractis, eu bod ar gael pan fo angen. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff, sy'n cynnwys holl aelodau staff y tri phractis, yn cael eu cynnal bob tri mis, a bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cofnodi gan reolwr y practis. Hefyd, gwelsom dystiolaeth bod y practis hwn yn cynnal ei gyfarfodydd tîm ei hun bob mis, a bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cofnodi, a'r canlyniadau'n cael eu cadarnhau mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd hefyd yn cael eu cynnal. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith yn y practis hwn.

Gwelsom enghraifft o gofnodion i ddangos bod staff yn gallu cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff yn cael rhaglen ymsefydlu orfodol, wedi'i chynllunio gan sefydliadau allanol.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis wedi cynnal arfarniadau chwemisol ar gyfer staff. Dywedodd yr holl staff y cawsom sgwrs â hwy eu bod yn teimlo eu bod yn gallu trafod eu pryderon a'u hanghenion hyfforddi â dirprwy reolwr y practis.

Roedd adolygiadau gan gymheiriaid mewnol yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl ddeintyddion bob tri mis. Roedd staff clinigol yn mynd i gyfarfodydd lleol rheolaidd ac yn defnyddio rhaglenni hyfforddi ar-lein.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), roedd yr holl ddeintyddion sy'n darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru ag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis. Gwelwyd yswiriant indemniad priodol.

Wrth edrych ar ddedoliad o bolisiâu a gweithdrefnau yn y practis, gwelsom nad oedd rhai o'r polisiâu wedi cael eu llofnodi a'u dyddio i ddangos pryd yr oeddent wedi cael eu diweddarau.

Gwelsom nad oedd rhai o'r polisiâu yn y practis yn cynnwys manylion am y trefniadau a oedd ar waith yn y practis, e.e. y polisi chwythu'r chwiban a'r polisiâu amddiffyn plant/oedolion. Hefyd, nid oedd gan y practis bolisi diogelwch data ar gyfer staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisiâu gofynnol ar waith, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u teilwra'n benodol i weithdrefnau'r practis, yn unol â'r canllawiau cyfredol.

5. Y Camau Nesaf

Yn sgil yr arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Heol Caerdydd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema gydweithio â'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis, sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth, hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008¹ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.² Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd gennym ddogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn cael adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Cardiff Road

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mawrth 2016

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Rhaid i'r practis sicrhau bod y toiledau yn cynnwys biniau glanweithiol ar gyfer gwastraff hylendid benywaidd.	Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Gofal a Llesiant) 1992; Safonau Iechyd a Gofal 2.1	BINIAU GLANWEITHIOL BELLACH AR WAITH	SCR	CWBLHAWYD
7	Rhaid i'r practis ddangos bod y	Safonau Iechyd a			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	polisi cyfleoedd cyfartal yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.	Gofal 6.2; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.6.1, 6.12	DIWEDDARWYD 21/4/16	SCR	CWBLHAWYD
7	Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi/gweithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat er mwyn sicrhau bod manylion cyswllt AGIC yn weladwy yn y polisi.	Safonau lechyd a Gofal 6.3; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.	DIWEDDARWYD 21/4/16	SCR	CWBLHAWYD
7	Dylai'r weithdrefn gwyno lawn gael ei harddangos lle gall y cleifion ei gweld a dylid sicrhau bod copïau ohoni ar gael yn yr ystafell aros. Ni ddylai cleifion orfod gofyn am y wybodaeth hon. Cyflwyno llyfr cofnodi cwynion i fonitro cwynion llafar.	Safonau lechyd a Gofal 6.3; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1	Y GWEITHDREFNAU BELLACH O FEWN GOLWG – AR GAEL I'R CLEIFION LLYFR COFNODION EISOES YN CAEL EI DDEFNYDDIO CYN YR AROLYGIAD – DANGOSWYD HWN I'R AROLYGYDD	SCR SCR	CWBLHAWYD CWBLHAWYD
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
8	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl finiau gwastraff yn defnyddio'r bagiau lliw priodol.	Safonau lechyd a Gofal 2.1; Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Lloegr/Cymru) 2005	MAE'R HOLL FINIAU GWASTRAFF BELLACH YN DEFNYDDIO'R BAGIAU LLIW PRIODOL	SCR	CWBLHAWYD
8	Sicrhau bod blychau offer miniog yn cael eu cadw oddi ar y llawr.	Safonau lechyd a Gofal 2.1; Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005	SYMUDWYD BLYCHAU OFFER MINIOG I'R ARDAL GWEITHIO (ODDI AR Y LLAWR)	SCR	CWBLHAWYD
10	Rydym yn argymhell y cyflawnir archwiliadau rheoli heintiau gan y nyrsys sydd ynghlwm â'r broses ddadheintio.	Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05, 2.23	WRTHI'N GWEITHREDU'R ARCHWILIADAU	SCR	TRI MIS
10	Dylai'r practis sicrhau bod arwyddion ar waliau'r ystafell	Memorandwm Technegol	ARWYDDION GWELADWY (BUDR	SCR	CWBLHAWYD

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	ddadheintio i ddangos y llif o ardaloedd budr i ardaloedd glân, ynghyd ag arwyddion clir i ddynodi'r ardaloedd budr a glân. Yn ogystal, dylid arddangos y gweithdrefnau dadheintio ar y waliau.	Iechyd Cymru 01-05, 5.3, 5.4	I LÂN) BELLACH AR Y WALIAU		
10	<p>Dylai'r practis sicrhau bod y cyffuriau brys yn cael eu cadw mewn ystafell/drôr dan glo.</p> <p>Dylid gwirio'n rheolaidd cyffuriau a chyfarpar brys (silindr ocsigen a diffibriliwr) er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio. Dylid diweddarau'r llyfr cofnodion i ddangos yn glir pan wneir y gwiriadau hyn.</p> <p>Gwnaethom argymhell cadw'r cyffuriau a'r gweithdrefnau brys gyda'i gilydd i sicrhau y ceir mynediad hawdd atynt yn ystod argyfwng.</p>	Llyfr Fformiwlâu Ymarferwyr Deintyddol; Safonau Iechyd a Gofal 2.6, 2.9	<p>ARCHEBWYD CLO Â CHÔD AR GYFER Y DRWS</p> <p>LLYFR COFNODION YN CAEL EI DDEFNYDDIO CYN YR AROLYGIAD – DANGOSWYD HWN I'R AROLYGYDD</p> <p>Y GWEITHDREFNAU BELLACH YN CAEL EU CADW Â'R CYFFURIAU BRYD (POPETH YN CAEL EI GADW GYDA'I GILYDD)</p>	<p>SCR</p> <p>SCR</p> <p>SCR</p>	<p>WYTH WYTHNOS</p> <p>CWBLHAWYD</p> <p>CWBLHAWYD</p>
10	Dylai'r practis sicrhau bod ganddo	Safonau	POLISI BELLACH WEDI'I OSOD		

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	bolisi dadebru addasedig a bod gan bob aelod o staff gopi ohono.	lechyd a Gofal 5.1	YN Y DDERBYNFA AC YN YR YSTAFELL STAFF. MAE'R STAFF I GYD WEDI DERBYN COPI.	SCR	CWBLHAWYD
10	Dylai'r practis gael polisïau amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed cyfredol sy'n benodol ar gyfer y practis.	Safonau lechyd a Gofal 2.7; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3 ac 8.5	CEDWIR FFOLDER AR WAHÂN BELLACH AR GYFER Y POLISÏAU HYN	SCR	CWBLHAWYD
11	Gwnaethom argymhell bod y practis yn cwblhau archwiliadau sicrhau ansawdd radiograffeg yn flynyddol.	Safonau lechyd a Gofal 2.9	WRTHI'N GWEITHREDU'R ARCHWILIADAU	SCR	CHWE MIS
11	Dylid diweddarau'r rheolau ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel i gynnwys manylion cyswllt y cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd.	Rheoliadau Deintyddiaet h Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14(1); Safonau lechyd a Gofal 2.1 a	DIWEDDARWYD Y RHEOLAU A'U GOSOD GYDA'R HOLL GYFARPAR RADIOGRAFFEG	SCR	CWBLHAWYD

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		2.9			
11	Dylid dogfennu diagramau o'r ardaloedd rheoli ar gyfer pob peiriant pelydr-X.	Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.9; Rheoliadau Ymbelydred d'ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydred d'ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000	ARDALOEDD RHEOLI BELLACH WEDI'U DOGFENNU – YR HOLL STAFF YN YMWBODOL O ARDALOEDD GWEITHIO DIOGEL	SCR	CWBLHAWYD
11	Dylai'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd gynnwys yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â defnyddio pelydrau-X yn y practis a manylion o gyrsiau hyfforddi perthnasol a'r dyddiadau y mynychwyd y cyrsiau gan y staff.	Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.9; Rheoliadau Ymbelydred d'ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydred d'ïoneiddio	CEDWIR FFEIL AR WAHÂN BELLACH AR GYFER Y POLISIÄU HYN. COFNOD HYFFORDDI BELLACH AR GAEL.	SCR	CWBLHAWYD

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		(Datguddio Meddygol) 2000			
12	Dylai'r holl nodiadau cleifion gynnwys hanesion meddygol wedi'u llofnodi a dylid nodi diweddariadau llafar. Yn ogystal, dylid graddio'r holl radiograffau a dylid rhoi gwybod i'r cleifion sy'n ysmegu am eu risg cynyddol o ganser y geg.	Safonau lechyd a Gofal 3.5; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1.1, 4.1.2	HANESION MEDDYGOL BELLACH YN CAEL EU CYDLOFNODI GAN YMARFERYDD DEINTYDDOL CYFFREDINOL HYSBYSWYD YR HOLL YMARFERWYR DEINTYDDOL CYFFREDINOL O RAN DIWEDDARU COFNODION CLEIFION O RAN YSMYGU	SCR	CWBLHAWYD
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
14	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisïau angenrheidiol ar waith, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn benodol i weithdrefnau'r practis.	Safonau lechyd a Gofal 2.1; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6	WRTHI'N DIWEDDARU'R HOLL BOLISÏAU	SCR	CHWE MIS

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): SARAH REES.....

Teitl: RHEOLWR Y PRACTIS.....

Dyddiad: 30.5.16 (DIWEDDARWYD).....